# Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol

## 30 Tachwedd 2022

Yn bresennol: Dr R Plummer (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd R Jordan, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 11.25yb)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Dr S Hancock a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol; datganodd Dr M Havard a'r Cynghorydd M Wiggins bod ganddynt fuddiant yn adroddiadau 07/22, 08/22 a 09/22 fel Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fodd bynnag arhosodd y tri yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022.

**4. Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2022 (Cofnod 6a)

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ddiweddariad wedi'i anfon ynghylch dyfodol y prosiect cydweithredol i ddatblygu ymagwedd ranbarthol at Ddatblygiadau Un Blaned a Gwella Bioamrywiaeth. Atebodd y Prif Weithredwr bod y mater wedi'i godi ar lefel ranbarthol a bod y swyddogion yn edrych i ddatblygu dull o weithredu.

**Nodwyd.**

b) Rhaglen Waith y Flwyddyn sydd i ddod (Cofnod 11)

Gofynnodd un Aelod a oedd y cyfarfod wedi cymryd y thema 'Cadwraeth' yn dilyn yr awgrym o neilltuo pob cyfarfod chwarterol i un elfen o Strategaeth yr Awdurdod. Dywedodd Aelod arall ei bod yn bwysig peidio â meddwl am waith yr Awdurdod mewn unedau, gan fod nifer o'r adroddiadau oedd gerbron y Pwyllgor y diwrnod hwnnw yn dangos effaith y gwaith ar gymunedau ac ar leihau'r ôl troed carbon yn

ogystal â chadwraeth ei hun. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad ar Kickstart yn cael ei ystyried yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

<u>c) Camau Gweithredu</u>

Awgrymwyd y gellid datblygu log gweithredu er mwyn sicrhau nad oedd camau gweithredu yn mynd yn angof. Cytunodd y Prif Weithredwr i gael gair gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gweithredol ar y mater hwn.

**NODWYD.**

**5. Diweddariad ar y Rhybudd o Gynnig bod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Llandyfái, ac unrhyw bartïon sydd â buddiant, naill ai i roi neu werthu tir yn Freshwater East ar gyfer darparu lle chwarae i blant.**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Rhybudd o Gynnig hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, a bod y mater wedi'i ystyried mewn cyfarfod blaenorol pan benderfynwyd bod swyddogion yn cyfathrebu ymhellach â Chyngor Cymuned Llandyfái ynghylch darparu lle chwarae i blant yn Freshwater East ac adrodd yn ôl.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Swyddog Ystadau wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandyfái yn yr hydref ac wedi egluro, er bod yr Awdurdod yn hapus i weithio gyda hwy ar y mater hwn, bod angen yn y lle cyntaf iddynt gyflwyno cynnig sylweddol i'w ystyried. Nid oedd dim byd pellach wedi'i glywed oddi wrth y Cyngor Cymuned ers y cyfarfod hwnnw, felly roedd y pwynt gweithredu y cytunwyd arno yn parhau yn eu dwylo hwy.

Dywedodd bod y Pwyllgor wedi cytuno yn flaenorol, pe na bai dull gweithredu pellach wedi dod i law, y byddai'r Rhybudd o Gynnig yn cael ei ystyried fel un oedd wedi'i gau ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unol â hynny. Byddai hyn hefyd yn cael ei gyfleu i'r Cynghorydd Kidney, oedd wedi codi'r mater yn y lle cyntaf, ond nad oedd bellach yn Aelod o'r Awdurdod. Ychwanegodd bod yr Awdurdod yn parhau yn hapus i weithio gyda'r Cyngor Cymuned pe baent yn cyflwyno unrhyw gynigion yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**6. Cynllun plannu coed '70 Coeden i ddathlu 70 Mlynedd'**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Tachwedd 2021 wedi cymeradwyo cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Reg Owens i goffáu ei ddynodiad gwreiddiol 70 mlynedd yn ôl drwy blannu 70 o goed ym mhob cymuned yn y Parc Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad

yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn, ac yn y cyfarfod rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth Parcmyn y wybodaeth ddiweddaraf, gan hysbysu bod 16 o gynlluniau plannu bellach ar y gweill, a bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Cynghorau Cymuned a grwpiau cymunedol eraill ynghylch cynlluniau pellach ar draws y Sir, fyddai gobeithio yn dwyn ffrwyth yn 2023. Dywedodd bod amrywiaeth eang o goed yn cael eu plannu, a bod eu lleoliad yn cael ei gofnodi i sicrhau bod y coed yn cael eu cynnal a'u cadw. Croesawyd cymorth gwirfoddolwyr lleol, gan gynnwys Wardeniaid Coed yr Awdurdod, yn hyn o beth.

Roedd yr Aelodau wedi llongyfarch tîm y Parcmyn ar brosiect gwych ac ar eu cymorth gyda chynlluniau unigol, a chytunodd y swyddog i ymchwilio ymhellach i rai ohonynt yn dilyn y cyfarfod. Amlygwyd gwerth y cysylltiadau â phrosiectau Ymddiriedolaeth y Parc Cenedlaethol 'Gwyllt am Goetiroedd' a 'Creu Mwy o Ddolydd', a dywedodd y swyddog, diolch i gefnogaeth yr Ymddiriedolaeth, y byddai cyllid ar gael i ddisodli unrhyw goed fyddai'n methu.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiad Archaeoleg Blynyddol 2021-2022**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno gwaith yr Awdurdod o ran archaeoleg yn ystod blwyddyn ariannol 2021-2022. Cyflwynwyd y gwaith oedd yn ymwneud â Chynllun Gweithredu Archaeoleg 2020 - 2024. Yn ogystal, amlygwyd cyfraniad Archaeoleg tuag at gyflawni'r amcanion perthnasol yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020 – 2024, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021 – 2022 ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Er bod Covid-19 yn parhau i gael effaith, nodwyd bod hyn wedi lleihau o flwyddyn ariannol 2020 - 2021.

Dywedodd yr Archaeolegydd Cymunedol bod archaeoleg yn thema drawsbynciol yn wir ystyr y gair ar draws holl amcanion yr Awdurdod, a diolchodd i'r ystod o randdeiliaid - y rhai yn y gymuned yn ogystal â chydweithwyr yn y Parc Cenedlaethol a'r rhai sy'n arwain ar brosiectau - am wneud y gweithgaredd yn bosibl.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad rhagorol, oedd yn amlygu yn arbennig y gweithio mewn partneriaeth a'r gwaith gyda gwirfoddolwyr a phlant/ieuenctid oedd wedi'i gynnal. Roeddent yn bryderus o ddarllen am yr achosion o droseddau treftadaeth oedd wedi digwydd, ac amlinellodd y swyddog y gwaith oedd wedi'i wneud, mewn cydweithrediad â'r heddlu a sefydliadau eraill, i fynd i'r afael â hyn. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw monitro er mwyn clustnodi meysydd lle gall problemau godi, a thynnu sylw at y mater drwy'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol i ennyn ymwybyddiaeth. Gofynnodd y Cadeirydd am y blaenoriaethau ar gyfer archaeoleg yn y dyfodol a gofynnodd a oedd yn

bosibl cynnwys adran sy'n edrych i'r dyfodol yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiad Cadwraeth 2021-2022**

Roedd yr adroddiad yn nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd gan yr Awdurdod drwy ei waith cadwraeth yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, yn enwedig effaith y gweithgareddau rheoli tir cadwraeth; enghreifftiau penodol o'r hyn a gyflawnwyd o dan y cynllun 'Gwarchod y Parc'; y cynnydd a wnaed o ran rheoli safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod; adroddiad ar brosiectau partneriaeth a chydweithio; y cynnydd o ran y prosiect 'Pwyth mewn Pryd; a chanlyniadau monitro rhywogaethau a dehongli. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi cyflawniadau allweddol y tîm dros y deng mlynedd diwethaf.

Llongyfarchodd yr Aelodau y tîm ar y cynnydd yng nghwmpas a maint eu gwaith, a'r cynnydd oedd hynny yn ei olygu mewn ymgysylltu â'r gymuned. Nodwyd bod defnyddio gwirfoddolwyr a gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn hollbwysig i gyflawni hyn. Roedd cynnwys enghreifftiau o achosion wedi bod yn ddiddorol, a diolchwyd i'r swyddog am ymateb i gais blaenorol y Pwyllgor i adrodd ar waith allweddol y llwyddwyd i'w gyflawni. Hefyd holwyd am effaith tanau gwyllt dros yr haf, a chanmolodd yr Aelodau y gwaith ar ffiniau traddodiadol gan obeithio y byddai hyn yn parhau. Roedd swyddogion yn cydnabod bod tanau gwyllt yn debygol o gynyddu o ganlyniad i hafau mwy sych, ond bod yr Awdurdod, fel Cadeirydd Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro, yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o geisio rheoli'r broblem. Roeddent hefyd yn cytuno bod gwrychoedd yn bwysig am nifer o resymau gan gynnwys gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd bywyd gwyllt, ac yn gobeithio y byddai cyllid ar gyfer y maes hwn o waith yn cael ei gynnwys yn y cynllun ffermio cynaliadwy newydd, fel y gellid cyfeirio arian yr Awdurdod mwyfwy at y cymunedau.

**Nodwyd.**

**9. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 30 Medi 2022**

Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2022/23 ac yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi ac yn cynnwys ystadegau Ch1 – Ch2 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol. Roedd adroddiad y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn amlygu nifer o fesurau a chamau gweithredu i'r Pwyllgor o ran gwaith yr Awdurdod, a rhoddodd sawl diweddariad yn y cyfarfod ynghylch cynlluniau cyflawni, gwefru cerbydau trydan a derbyn faniau trydan. Dywedodd hefyd bod rhai graddfeydd Coch Oren a Gwyrdd wedi'u diweddaru yn dilyn sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor Archwilio ac

Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn ddiweddar ac y byddai'r canllawiau Coch Oren a Gwyrdd yn cael eu hadolygu o ganlyniad.

Gan nodi bod nifer o’r targedau yn wyrdd, gofynnodd un Aelod a oedd hyn yn ddigon uchelgeisiol. Hefyd gofynnwyd am ddiweddariad mewn adroddiadau yn y dyfodol ar y cynllun cyflogau a graddfeydd, y prosiect ailddatblygu'r Ystafell Werdd, a'r prosiect sy'n ystyried cyfeiriad Oriel y Parc yn y dyfodol. Ymatebodd y swyddogion bod mesurau ar y gweill oedd yn ymwneud â'r eitemau hynny ac y byddai’r cynnydd arnynt yn cael ei amlygu yn y dyfodol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai eitem ar ailddatblygu'r Ystafell Werdd yn cael ei chynnwys ar agenda’r cyfarfod nesaf o’r Awdurdod.

Tra'n cymeradwyo'r tîm ar y gwaith a wnaed, amlygwyd y metrigau siomedig ar berfformiad yr adran gynllunio, a'r gobaith oedd y byddai penodi'r Cyfarwyddwr a staff ychwanegol yn arwain at gynnydd yn hyn o beth. Dywedodd y swyddog, oherwydd natur y targedau, bod y ffigurau, yn anffodus, yn debygol o ostwng cyn iddynt wella, wrth i'r gwaith fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Mewn ymateb i gwestiynau eraill ynghylch y gwasanaeth cynllunio, eglurodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu na chynhelir Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar geisiadau cynllunio unigol ond ar y Cynlluniau Datblygu yr aseswyd y ceisiadau hynny yn eu herbyn. Ychwanegodd bod dal swyddi gwag o fewn y tîm a bod camau ar y gweill i lenwi'r swyddi hynny. Byddai defnydd yr Awdurdod o ymgynghorwyr yn cael ei adolygu fis Ionawr pan ddaw nifer o’r contractau i ben, er i'r Prif Weithredwr nodi y byddai hyn yn parhau i fod yn arf a ddefnyddir gan yr Awdurdod i helpu i gynnal gwasanaeth cynllunio effeithiol. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai fod yn ddefnyddiol i egluro'r dulliau o ymdrin ag Asesiadau Effaith mewn Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau hefyd yn edrych ymlaen at gael hyfforddiant ar ddatgarboneiddio a llythrennedd carbon, ac yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddiant Datblygu Aelodau; ar y pwnc Datblygu Aelodau, nodwyd bod yr Aelodau yn cael eu hannog ar hyn o bryd i wneud eu Hadolygiadau Datblygiad Personol yn unol â'r canllawiau a ddosbarthwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Roedd pwyntiau eraill a godwyd yn ymwneud â cholli’r terfyn amser i ymateb i gais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, ac eglurodd y swyddog mai'r rheswm am hyn oedd newid yn y staff, a diweddariad ar hawliadau staff am atebolrwydd anafiadau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi ynghylch y ffordd orau o hysbysu'r Aelodau ynghylch y pwynt olaf hwn, oherwydd yr amser a gymerir i ddatrys y cyfryw hawliadau.

**NODWYD.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023 heb eu diwygio.